

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 2 Rhif8

Yn rhad ac am ddim

Tachwedd 2021



Gerallt Gymro - Rhan 3

Gerallt Gymro Rhan 3

gan Rob Evans

Hyd yn hyn dw i wedi sôn am Gerallt yn ymdrechu i gadw clerigwyr Cymru at reolau moesol yr Eglwys ac yn ysgrifennu canllawiau iddyn nhw yn ei lyfr Gemma Ecclesiastica cyn iddo ymuno a llys Harri II. Wedyn aeth o i Iwerddon er mwyn cadw llygaid ar John, mab Harri ac aros yn y wlad yna ac ysgrifennu ei llyfr 'Topography of Ireland'. Yn amlwg mae o'n hoff iawn o ysgrifennu ond yn 1187 mi wnaeth rywbeth ddigwydd a wnaeth, yn y pendraw, ysbrydoli llyfr arall. Erbyn hyn mae'r llyfr yn

cael ei dderbyn fel llyfr pwysig iawn yn hanes Cymru. Mae 'The Journey Through Wales/The Description of Wales' yn rhoi ar bapur sut oedd pethau yng Nghymru yn y flwyddyn 1188, bron fel bod rhywun wedi tynnu cyfres o luniau.

Y sbardun i hyn i gyd oedd bod Saladin wedi ymosod ar ac wedi cipio Jerwsalem, a hynny'n golygu bod y Ddinas Sanctaidd ar gau i'r byd Cristnogol. Roedd hyn yn ergyd mawr i'r gwledydd cred ac roedd rhaid iddyn nhw ymateb yn syth. Yr ymateb oedd, wrth gwrs i godi milwyr i ffurfio croesgad. Yn ddelfrydol bydd Lloegr a Ffrainc yn cydweithio ond doedd

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

y perthynas rhwng Harri II a Brenin Phillip o Ffrainc ddim yn un gyfeillgar. Ond, o'r diwedd, wnaethon nhw ddod at ryw fath o gytundeb.

Yng Nghymru roedd y saethwyr a'r milwyr troed gorau yn y wlad, wel roedden nhw wedi cael digon o ymarfer wrth gadw'r Normaniaid draw dros y blynyddoedd. Roedd Archesgob Caergaint am fynd trwy Gymru i godi byddin, ond roedd Cymru braidd yn wahanol yn y dyddiau yna. Doedd dim ffyrdd fel y mae erbyn hyn, dim mapiau chwaith. Roedd llawer o afonydd ond ychydig iawn o bontydd a lladron dros y lle i gyd. Dim y fath o le i Archesgob Caergaint grwydro trwyddi heb rywun i'w arwain a dw i'n siŵr eich bod chi wedi dyfalu erbyn hyn, ia, Gerallt oedd y dyn.

Gadewch i ni fynd yn ôl i ddechrau hanes Gerallt. Byddech yn cofio bod ei fam o deulu dylanwadol yng Nghymru. Roedden nhw'n gorfod mynd o un dywysogaeth i'r llall a phob tro oedden nhw'n croesi ffin roedd milwyr newydd yna i'w gwarchod nhw.

Yn yr wythnos gyntaf ym mis Mawrth 1188 mi wnaeth Gerallt gyfarfod yr esgob yn Henffordd. Roedd y Prif Ustus, Ranulph de Glanville a Peter de Leya, esgob Tŷ Ddewi ar y daith hefyd. Mae'n sicr roedd tipyn o straen rhwng Gerallt a Peter de Leya achos roedd Gerallt yn gobeithio cael ei ddyrchafu i fod yn esgob Tŷ Ddewi ar ôl i'w ewythr farw. Cawn weld nes ymlaen pa mor benderfynol oedd Gerallt am gael y swydd.

Ond roedd gwaith yn galw a'r lle cyntaf i'r esgob pregethu oedd Radnor ac roedd hi'n bwysig iawn i godi teimladau'r torf. Dychmygwch yr esgob yn gorffen ei apêl ac yn edrych ar ei gynulleidfa a gofyn "Pwy sydd yn mynd i gymryd y Groes a chymryd rhan yn y frwydr o daflu Saladin allan o Jerwsalem?" a neb yn rhuthro i wirfoddoli. Roedd Gerallt wedi meddwl am hyn a fo oedd y cyntaf i daflu ei hun wrth draed yr esgob i gynnig ei hun. Yn amlwg roedd o'n gyfarwydd â gweld pobl yn y farchnad yn trio cael pobl i brynu teclyn 'rhaid ei gael' a phobl yn cael eu plannu yn y dorf. Wrth gwrs unwaith roedd Gerallt wedi gwirfoddoli roedd y lleill yn dilyn. Roedd y patrwm wedi cael ei osod.

A dyna ddechreuodd daith oedd yn mynd â nhw trwy Y Gelli, Aberhonddu, Y Fenni, Casnewydd i ddilyn yr arfordir yr holl ffordd i

Gaer. I gyrraedd yn ôl i Henffordd roedd rhaid iddyn nhw fynd yr ochr Lloegr i'r ffin achos roedd problemau efo Tywysog Gogledd Powys, Gruffydd ap Madog achos roedd o wedi priodi ei gyfnither. Roedd broblem hefyd yn Ne Powys ble roedd y Tywysog Owain Cyfeiliog wedi cael ei esgymuno am fethu cyfarfod yr Archesgob.

Wrth gyrraedd Henffordd roedden nhw wedi bod yn teithio am saith wythnos ac roedd 3000 o ddynion wedi cytuno i ymuno â'r Groesgad. Criw cymysg iawn oedden nhw, roedd troseddwy'r o bob math yn cynnwys llofruddwyr a lladron. Chi'n gweld roedd bywyd yn y fyddin yn sicrhau bwyd bob dydd ac, yn sicr i'r carcharorion yn llawer gwell nag oedden nhw'n dioddef dan glo.

Doedd ganddyn nhw ddim byd i'w golli achos roedden nhw'n cael maddeuant am eu holl bechodau a petaswn nhw'n cael ei lladd, sicrwydd i gael tocyn dosbarth cyntaf i'r nef!

A dyna chi, dach chi wedi cyrraedd tri chwarter y ffordd trwy fywyd Gerallt, byddech yn gallu darllen y chwarter olaf mis nesaf.

Farwel i Pilchard

gan Anne Lloyd



Dim ond blwyddyn yn ôl cwrddon ni â Pilchard. Ro'n ni'n cerdded trwy'r pentref myfyrwyr yn Hendrefoilan pan welon ni hi am y tro cyntaf. Roedd hi'n cerdded tuag aton ni, pêl fach o ffwr trilliw. Cath fach oedd hi, siŵr o fod. Neu beidio? Roedd hi'n goesgam, ac roedd hi'n gloff. Efallai mynd yn hen.

Ac wedyn, gwelon ni gwt bach ger drws bloc o'r fflatiau. Doedd dim myfyrwyr yn y pentref ar y pryd, roedd hi'n wyliau'r haf. Pwy oedd ei phiau hi? Roedd y cyfnod clo cyntaf wedi cwpla,

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ond roedd dal llawer o weithwyr GIG nad oedd yn moyn byw gartre er mwyn atal eu teuluoedd rhag dal Covid. Efallai bod ei pherchennog hi'n feddyg neu nyrs, oedd yn aros yn y pentref dros dro. Roedd y gath yn eithaf cyfeillgar, a ro'n ni'n cael codi gogleis arni hi. Aethon ni ar ein ffordd.

Daeth hi'n wyneb cyfarwydd, ond cwpl o wythnosau wedyn, ces i dipyn bach o syndod. Cyrhaeddodd y cylchgrawn di-ddal, "Y Bae" trwy'r blwch llythyrau, Dw i wastad yn darllen yr erthyglau am Cats Protection, a dyna oedd hi, yn ei holl ogoniant! Seren oedd ein ffrind bach! Cath gymunedol oedd hi, sef anifail crwydr. Roedd llawer o wybodaeth amdani yn yr erthygl - ac roedd hi'n syndod i ddarganfod bod hi'n un ar bymtheg oed o leiaf. Dyna bedwar ugain oed mewn blynyddoedd dynol. Sa i'n teimlo mor hen nawr!

Roedd hi'n cael ei gwarchod gan Cats Protection, gwirfoddolwyr, trigolion gerllaw, a hyd yn oed myfyrwyr! A nawr, ni hefyd. Mae tair cath 'da ni, ond so nhw'n mynd am dro 'da ni. Ro'n ni'n edrych ymlaen at ei gweld hi yn ystod ein hymweliadau i'r pentref. Gallon ni weld ei bwyd yn gyntedd y fflatiau, bwyd neis iawn, pethau fel Sheba dim llai! Roedd yn amlwg fod cymwynaswr hael 'da hi. Ond yn anffodus, roedd y drws ar gau. Felly, ro'n ni'n arfer mynd â bwyd cath gyda ni (ond dim byd mor grand â Sheba) er mwyn ei bwydo hi, ynghyd â rhai trîts. I fod yn onest, nad oedd hi mor ffyslyd ag ein cathod ni, byddai hi'n bwyta un rhywbeth.



Ar ôl dipyn o amser, ro'n ni'n siŵr bod hi'n ein hadnabod ni pan gyrhaeddodd ni'r pentref. Byddai hi'n cerdded tuag aton ni, ac ein harwain ni at ei phowlenni i gael bwyd. Diawl bach eofn oedd hi! Ond dal mor giwt. Weithiau, roedd hi hyd yn oed yn canu grwndi i ni.

Ond doedd popeth ddim yn fêl i gyd. Roedd y gwylanod yn farus iawn, a ro'n nhw'n arfer ei hymosod arni hi er mwyn dwyn ei bwyd. Druan ohoni!

Yn anffodus, daliodd amser lan gyda hi. Aeth hi'n sâl, ac er gwaethaf ymdrech y milfeddyg, ym mis Gorffennaf aeth hi 'dros y bont enfys', fel maen nhw'n dweud. Ond mae ei henw hi'n parhau. Mae plac ar wal y fflatiau sy'n ei choffau hi. Dyn ni dal eisiau ei gweld hi, a bydd ein hymweliadau i'r pentref byth yr un peth.

Roedd hi'n bleser dy nabod di Pilchard, hyd yn oed dim ond am amser byr.


Diolch am dy gwmni.

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Mis Hydref 2021 – Sgwrs ar Zoom

Cymru mewn 100 Gwrthrych

gan Andrew Green



Roedd Andrew Green yn Llyfrgellydd Cenedlaethol, sef prif weithredwr Llyfrgell Genedlaethol Cymru, rhwng 1998 a 2013. Enillodd ei lyfr, "Cymru mewn 100 Gwrthrych", y categori Ffeithiol - Greadigol yng ngwobrau Cymraeg Llyfr y Flwyddyn 2019. Mae'r llyfr ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd nifer da o bobl yno a mwynheuodd pawb wrando ar Andrew yn siarad am gefndir y llyfr a'i gynnwys. Cafodd Andrew syniad y llyfr o lyfrau tebyg, sef "History of the World in 100 Objects" ac "Ireland in 100 Objects".

Wrth gwrs, gwnaeth Andrew lawer o ymchwil a theithiodd e o gwmpas Cymru cyn iddo fe benderfynu'r gwrthrychau i fynd yn y llyfr. Mae e wedi gwneud dewis ardderchog ac mae cynllun

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

y llyfr yn dda hefyd, gyda llun y gwrthrych ar un ochr a disgrifiad ar yr ochr arall.

Y gwrthrych cyntaf yn y llyfr ydy 'Llawfwyell Ogof Pontnewydd' sy'n dyddio i'r amserau Neanderthal, y bobl fwyaf hynafol yng Nghymru. Y gwrthrych olaf ydy 'Arwydd Llwybr Arfordir Cymru'. Mae'r llwybr yn un o nifer o fesurau arloesol sy wedi digwydd ers sefydliad y Cynulliad, nawr Senedd Cymru.

Siaradodd Andrew am nifer o'r gwrthrychau a'i resymau am eu dewis. Rhai ohonyn nhw oedd:-

'Angau a'r dyn ifanc', 15fed ganrif - un o'r murluniau sy wedi ei ddarganfod ar waliau yn Eglwys Cadog Sant, Llancarfan, Bro Morgannwg. Mae'n dyddio i'r amser cyn y chwyldro Protestannaidd ac mae'r llun hwn yn rhybuddio'r gynulleidfa bod marwolaeth yn dod i bawb. Does dim ots pa mor falch, ifanc neu gyfoethog ydy rhywun.

'Bedydd yn Llanbadarn', c1840 - Cafodd y llun ei beintio gan arlunydd anhysbys a oedd yn gyfrifol am nifer o beintiadau eraill: afonydd, cestyll, ffermwyr er enghraifft. Sefydlodd John Miles eglwys gyntaf y Bedyddwyr yng Nghymru yn 1649. Mae'r llun hwn yn dangos menyw yn cael ei bedyddio yn afon Rheidol gyda ffigurau yn eu dillad gorau yn gwyllo'r olygfa. Mae crefft yr arlunydd yn amlwg trwy'r lliwiau, cyfansoddiad a manylion y llun.

'Ffenestr Cymdeithas Cymorth Feddygol Tredegar', 1920au - Trefnwyd Cronfa Iechyd ac Addysg yn Nhredegar yn yr 1870au gyda thanysgrifiadau gan weithwyr glo a haearn. Dyna'r dechrau Cymdeithas Cymorth Feddygol Tredegar a aeth o nerth i nerth. Erbyn y 1920au gyda gwaith caled pobl fel Walter Conway, roedd ysbyty yn yr ardal ac roedd y Gymdeithas yn cyflogi meddygon, llawfeddyg, deintydd, nyrs ac ati. Ymunodd Aneurin Bevan â'r pwyllgor a phan ddaeth e'n Weinidog dros Iechyd ar ôl y Ail Ryfel Byd, ei flaenoriaeth gyntaf oedd sefydlu Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Pan ddechreuodd y Gwasanaeth yn 1948, roedd e'n seiliedig ar danysgrifio a ddatblygwyd yn Nhredegar.

Diolch yn fawr iawn i Andrew am y sgwrs a oedd yn ddiddorol dros ben.

Digwyddiad nesa ydy:-

Nos Lun, 8 Tachwedd ar Zoom am 7 30 yh – Dr Elain Price yn siarad am "Hanes S4C".

Am ragor o fanylion, cysylltwch â nestahumphreys@btinternet.com neu edrych ar ein tudalen Facebook.

<https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr>


Nesta Humphreys

Pwyllgor Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Dyle beth mae'r dysgwyr wedi ei wneud ym Mro Ogwr fod yn ysbrydoliaeth i ddysgwyr dros Gymru. Nid yn unig bod nhw wedi sicrhau bydd eu sgiliau yn ein hiaith yn datblygu ond hefyd maen nhw wedi rhoi cymdeithas ychwanegol i'r gymuned. Erbyn hyn maen nhw'n rhan bwysig o'r gymuned ac yn cael parch mawr.

Sefydlwch grŵp yn eich ardal chi, grŵp sydd ar agor i bawb - grŵp cerdded, darllen, seiclo, tynnu lluniau a.y.b. - Cadwch eich Cymraeg i fynd!

Pos Val



Cliwiau

Ar Draws

- 1) Ffug-chwedl
- 2) Mesur o faint
- 5) Sail
- 7) Nid allan
- 8) Ffrwyth neu liw
- 10) Un sy'n dewis
- 12) Ymofyn
- 13) Siarad

I Lawr

- 1) Tan
- 2) Llinell
- 3) Ffyddiog
- 4) Deuddeg
- 6) Tâl am gollod
- 7) Llysiau oren
- 9) 1/16 o bwys
- 11) Rhedegfa

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Am Dro – y Daith Iaith

gan Shelagh Fishlock

Es i ar daith gerdded Cymdeithas Edward Llwyd am y tro cyntaf ym mis Hydref 2018, cyn i fi siarad llawer o Gymraeg. Ers hynny dw i wedi dod i nabod nifer o ardaloedd De Cymru, o Sir Fynwy i Geredigion, ond yn bennaf oll wedi gwella fy Nghymraeg trwy gwrdd â grŵp o Gymry Cymraeg mor gyfeillgar ac amyneddgar. Maen nhw wastad yn fodlon i siarad, esbonio ac annog y rhai sy'n gwneud eu gorau glas i ddefnyddio'r iaith, 'sdim ots pa mor wael yw ein hymdrechion.

Ar ôl y cyfnod clo cyntaf y llynedd cafodd sawl taith eu trefnu, felly penderfynais wirfoddoli i arwain taith yn ardal Casnewydd. Wrth gwrs, wedi'r Haf daeth clo mawr eto, ac yn y pendraw trefnwyd y daith ym mis Hydref eleni.

Yn sgil Cofid, ces i fwy o amser i baratoi, ond hefyd amser i boeni ac i ddifaru mod i wedi cynnig arwain y daith. Ond cafodd y manylion eu cyhoeddi, felly rhy hwyr i fi newid fy meddwl! Roedd rhaid i mi fynd ati i wneud fy ymchwil am yr ardal a gwirio ffordd y daith. Dwedodd ffrind wrtha i ar y pryd, "Dw i ddim yn poeni am dy Gymraeg, ond does gen i ddim hyder yn dy synnwyr cyfeiriad." Roedd hi yn llygad ei lle – y tro cyntaf i fi drïo dilyn y daith es i ar goll dwywaith, ac wedyn des i o hyd i lwybr ar gau (gwaith Dŵr Cymru). Roedd rhaid i fi ail-wneud sawl rhan o'r daith cyn ei arwain, ac er gwaetha pryderon fy ffrindiau, cofiais i'r ffordd gywir ar y diwrnod ei hun.

Cwrddon 16 ohonon ni yng Nganolfan y 14 Loc, rhan o'r Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, ar ddiwrnod oer ond sych ar ôl wythnos o law. Un o'r campweithiau'r 19eg Ganrif yw'r 14 loc, yn disgyn 167 troedfedd mewn llai na hanner milltir. Roedd y Gamlas a'r lociau'n rhan bwysig

o lwyddiant diwydiannol yr ardal, a datblygiad Casnewydd fel porthladd glo. Mae'r lociau'n Henebion Gofrestredig ers 1998.

Ymlaen â ni o dan yr M4 a lan llwybr serth i'r Ridgeway, neu "Swistir Fach," llysenw'r lle ers 150 mlynedd oherwydd yr olygfa drawiadol, gan gynnwys Mynydd Machen, Twmbarlwm a Phen y Lan. Wedyn dilyn llwybrau o gwmpas y warchodfa natur Allt-yr-Yn cyn cael hoe fach (a brechdanau) wrth y pyllau ble oedd yr hen blasty a'r Lido. Mae'r ddau wedi diflannu erbyn hyn, ond roedd y Lido ar agor tan 1957.



I orffen y daith aethon ni o dan y draffordd eto, ar draws caeau a heibio'r cwrs golf a chronfeydd Ynysfro cyn cwrdd â nifer o geffylau chwilfrydig ar y ffordd nôl i'r Ganolfan i gael paned yn y caffï.

Heb os nac oni bai, wrth drafod popeth yn ystod y daith, roedd fy Nghymraeg yn llawn camgymeriadau – cam-dreiglo, anghofio geirfa a dechrau brawddegau heb allu eu gorffen. Ond doedd neb yn poeni am hynny heblaw fi. Ac erbyn hyn dw i'n teimlo fy mod i wedi gwneud cam mawr i fod yn siaradwr Cymraeg, nid jyst yn ddysgwr. Felly peidiwch â phoeni – daliwch ati i ddefnyddio'r iaith.

A wnewch chi basio'r Wennol ymlaen os gwelwch yn dda?

Dw i eisiau cael mwy o bobl i'w ddarllen a mwy o bobl i ysgrifennu erthyglau.

Beth amdanoch chi? Byddech chi'n hapus i ysgrifennu rhywbeth? Mae'n hawdd. Meddyliwch fod chi'n siarad efo ffrind ac yn sôn am eich gwyliau neu beth bynnag. Wedyn rhowch hynny ar bapur, bydda i'n gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn, felly, peidiwch â phoeni

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalen y Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Rhy Hwyr

Rhai blynyddoedd yn ôl roeddwn i ar awyren ar y ffordd yn ôl i Gaerdydd. Roedd y stiwardes yn gwerthu nwyddau di-doll. Roedd y dyn wrth fy ochr eisiau prynu wisgi ond dim ond potel fach oedd ar ôl.

“Ond dw i eisiau potel fawr!” dwedodd o. “Mae’n ddrwg gen i” meddai’r stiwardes “dyma’r un olaf”. Doedd y dyn ddim yn hapus ac yn dipyn o niwsans.

“Gaf i’r botel yna?” meddaf i “os nad ydi o eisiau hi?” “Wrth gwrs” medda’r stiwardes yn gyflym a phasio’r botel i mi.

Doedd y dyn ddim yn hapus o gwbl! Roedd o’n gandryll!

Nwyddau di-doll – duty free goods

Gandryll - furious

Dewch am Dro!

Mae hi’n chwech o’r gloch, yn y bore! Amser da i fynd am dro. Mae hi’n dywyll ond dw i’n gweld golau ar y gorwel. Golau’r wawr! Dyn ni’n mynd i gerdded dwy filltir.

Mae hi’n fore dydd Sul felly mae pawb yn cysgu. Mae hi’n dawel, ond ddim yn hollol. Dw i’n clywed robin goch yn canu yn y goeden ar y dde. Mae un arall yn y goeden ar y chwith. Mae un yn canu ac mae’r llall yn ateb. Tybed am beth maen nhw’n siarad.

Efallai siarad amdanon ni maen nhw. “Pam bod y bobl yma yn cerdded mor gynnar yn y bore?”

“Ia, dylen nhw fod yn eu gwlaû, yn gynnes o dan y dwfe!”

Mae’r awyr yn dechrau cochi, mae hi’n mynd i fod yn ddiwrnod braf! Hwre!

Gorwel - horizon

Dim yn hollol - not completely

Tybed - I wonder

Y Robin Goch



Mae pawb yn adnabod y robin goch. Dw i’n siŵr bod un yn byw yn eich gardd chi. Mae un yn fy ngardd i a bob tro dw i’n chwynnu mae o’n gwylio fi.

Roedd Iolo Williams yn sôn am y robin goch ar y teledu. Mae’r robin goch yn cysgu pan mae’r diwrnod wedi nosi.

Yn Abertawe mae’r goleuadau stryd ymlaen trwy’r nos. Mae hi byth yn dywyll. Dydy’r robin goch ddim wedi cael noson dda o gwsg am flynyddoedd!

Mae bagiau du o dan ei lygaid!

Druan ohono fo!

Adnabod - to know

Chwynnu - to weed

Gwylio - to watch

Nosi - to darken

Remembering words and patterns that you have learned in class can be difficult at first but once you get used to seeing them for real then things get easier. People who go to France to learn the language will achieve nothing unless they immerse themselves in the language. Read as much as you can, not so that you understand the story but to just get used to seeing the words

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Wedi anghofio pen-blwydd?

Yn sydyn dach chi'n sylweddoli bod pen-blwydd eich chwaer yn agosáu ac, ar ôl chwilio ym mhob man does dim byd sy'n gwneud y tro. Dach chi mewn panig! Os cardiau Cymraeg dach chi angen beth am fynd yn syth at eu gwefan ardderchog nhw www.cardiaucymraeg.com. Mae cardiau yno ar gyfer bob achlysur ac maen nhw'n anhygoel o gyflym! **Cefnogwch y byd Gymraeg.**



WWW.CARDIAU-CYMRAEG.COM

Meddygon Myddfai

gan Dilys Griffiths

Yn gynnar yn y 13 ganrif, yn ystod cyfnod Rhys Grug (mab Rhys ab Gruffydd), Tywysog y Deheubarth a sefydlodd ei brif Lys yng Nghastell Dinefwr yn Llandeilo, cawn hanes Meddygon Myddfai gan ei fod yn draddodiad i'r Tywysog gael ei feddyg dan ei nawddogaeth. Y meddygon

hyn oedd Rhiwallon a'i feibion, a oedd yn ddisgynyddion i Feddygon Myddfai. Cymaint oedd parch y Tywysog at ei feddygon fel y rhoddodd safle, breintiau a thir ym Myddfai iddynt. Gellir olrhain llawer o'r meddyginiaethau nôl i gyfnod Hywel Dda (tua'r flwyddyn 945) neu yn gynharach.

Roedd y ffordd byddai'r Meddygon yn ymdrin ag afiechydon yn y 15fed ganrif lawer mwy blaengar na'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop. Roeddynt hefyd yn fwy rhydd o ddylanwad ofergoeliaeth. Byddent yn ymdrechu i ddadansoddi symptomau cyn eu trin, ac fe brofwyd rhinweddau'r llysiau a ddefnyddid, a'u paratoi'n ofalus iawn cyn eu defnyddio.

Mae'n ddiddorol nodi bod llawer o'r afiechydon y byddent yn eu trin yn adlewyrchu ffordd o fyw'r bobl, ac amgylchiadau lletya eu dydd. Er enghraifft, nodir llawer o feddyginiaethau ar gyfer trin y llygaid a'r croen, pla o lyngyr, anhwylderau'r frest ac am esgryn wedi eu torri. Effaith byw mewn tai llaith, myglyd gyda glendid gwael ac efallai esgryn toredig oherwydd eu bod wedi niweidio wrth gwmpo neu i rywun ymosod arnynt yn gorfforol. Ni welir llawer o feddyginiaethau ar gyfer gwynegon neu glefyd y galon. Clefydau mwy modern yw'r rhain, yn deillio o'n ffordd o fyw heddiw.

Ceir disgrifiadau manwl ynddo am y pedair elfen o berson gwahanol, sydd gyda llaw yn dal i gael eu hystyried heddiw gan lysieuwyr meddygol ac ymarferwyr iechyd naturiol eraill, wrth benderfynu sut i roi triniaeth i glaf. Rhain fyddai - y person hyderus; person gyda llai o egni sy'n debygol o ddioddef gyda chrachboer; person sydd â gormodedd o wres yn y corff ac yn dueddol o fod yn ddiamynedd ac yn olaf, person a thueddiad i fod yn angerddol ynglŷn â phethau bywyd. Wrth gwrs gellir cael cymysgedd o'r gwahanol rinweddau hyn mewn un person hefyd. Heddiw byddai'r rhain yn rhoi syniad i'r sawl sy'n rhoi triniaeth sut mae'r claf wedi byw a beth sydd yn ei yrru, ac felly sut mae mynd i wraidd yr afiechyd a'i drin. Felly dim ond wrth edrych ar yr enghraifft hon yn unig, gwelwn fod Meddygon Myddfai yn deall yn iawn sut oedd edrych a dadansoddi iechyd y bobl.

Mae'r llawysgrif wreiddiol yn y Gymraeg, ond ceir cyfieithiad Saesneg gan John Pughe yn 1861,

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ynghyd â chyfieithiad o lawysgrif arall a ysgrifennwyd mwy na thebyg gan ddisgynnydd i'r meddygon o gwmpas yn hwyr yn y 15fed ganrif.

Credir mai disgynyddion i'r gwartheg gwynion o'r chwedl ydy'r Gwartheg Gwynion gyda chlustiau duon mae Hywel Dda yn son amdanynt yn ei gyfreithiau. Hefyd mae Gwartheg Gwynion y Parc yn byw ym Mharc Dinefwr heddiw lle mae olion Castell Dinefwr, yn cysylltu'r hanes gyda'r Arglwydd Rhys.



Un o Wartheg Gwyn Dinefwr

Am fwy o wybodaeth am Gyfreithiau Hywel Dda ymwelwch â'r Ardd arbennig yn Hendygywn-ar-dâf, Sir Gaerfyrddin, ac i weld y Gwartheg Gwynion ymwelwch â Pharc Dinefwr ac olion yr hen gastell tu allan i Landeilo yn Sir Gaerfyrddin. Ceir canolfan a neuadd ddiddorol ym mhentref Myddfai lle gallwch weld yr hanes am y Meddygon, a hefyd mynd am dro o gwmpas yr ardal i weld cymaint o blanhigion meddyginiaethol sy'n dal ar gael yn tyfu'n wyllt yno. Ond cofiwch i ddilyn rheolau cefn gwlad wrth fynd o gwmpas, a mynnwch gynllun neu fap o'r ardal os ydych am ddilyn llwybrau'r meddygon a gweld Pant y Meddygon a'u ffynnon. Gall rhai o'r ardaloedd fod yn rhan o eiddo preifat bellach, felly sicrhewch eich bod yn gwneud eich ymchwil ymlaen llaw. Neu beth am fynd am dro wrth ymyl Llyn y Fan Fach i deimlo'r hud yn arnofio ar y dŵr a chofio am y forwynig brydferth?

Fel y gwelwch chi, mae llawer o hanes a chefnidir meddygol yn Sir Gaerfyrddin a digon o fannau i ymweld â hwy i ddwyn yr hanesion hyn i gof o'r newydd.

Hanes Y Gymraeg

Yr Oes Duduraidd

gan Martin Jones

Ym 1485, coronwyd Harri Tudur, neu Henry VII, yn frenin Lloegr a Chymru. Ond er bod y brenin newydd yn ddisgynnydd i'r teulu Tudur o Benmynydd yn Ynys Môn, mewn gwirionedd roedd yr Oes Duduraidd yn gyfnod o berygl enfawr i'r iaith Gymraeg yn wyneb nifer o ffactorau oedd yn gweithio'n ei herbyn. Ac mae'n bwysig cofio bod poblogaeth Cymru yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn ddim ond chwarter miliwn, nifer fach o siaradwyr i gadw'r iaith yn fwy.

Rydw i wedi ysgrifennu mewn erthygl flaenorol bod y Gymraeg, erbyn diwedd y bymthegfed ganrif, yn dechrau cael ei hystyried yn gyfrwng israddol ar gyfer gweinyddiaeth a materion eglwysig. Roedd yr uchelwyr yng Nghymru yn dechrau teimlo bod angen iddyn nhw ddod yn rhugl yn Saesneg. Cryfhodd y teimlad hwn yn ystod yr Oes Duduraidd wrth i'r uchelwyr dynwared yn fwyfwy arferion ac iaith y dosbarth uchaf yn Lloegr er mwyn "dod ymlaen yn y byd". Ymhlith yr arferion wedi'u mabwysiadu gan yr uchelwyr oedd cyfenwau teuluol yn lle'r hen draddodiad Cymreig o alw dyn ar ôl ei dad (er enghraifft, Owain ap Rhodri) neu yn ôl rhyw nodwedd gorfforol (ee Dafydd Foel).

Hefyd, yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, tynnodd Cymru'n agosach at Loegr yn economaidd a chynyddodd masnach rhyngddyn nhw'n gyson trwy'r ganrif (yn enwedig o ran gwartheg a brethyn). Ar yr un adeg, o ganlyniad i fodolaeth y wasg argraffu, roedd y cylchrediad o lyfrau yn yr iaith Saesneg yn cynyddu. Ac ar ben hynny, o ran addysg, doedd gan y Gymraeg dim lle yn ysgolion gramadeg Cymreig, tra roedd llawer o'r uchelwyr yn anfon eu meibion i Rydychen a Chaergrawnt.

Ond yn bennaf oll, cafodd statws y Gymraeg ei hun ei danseilio'n sylfaenol gan y Ddeddf o 1536 (fel arfer gelwir Deddf Uno, ond mewn gwirionedd "An Acte for Laws & Justice to be ministred in Wales in like fourme as it is in this Realme."). Er, ar y naill law, rhoddodd y Ddeddf yr hawl i'r Cymry fwynhau'r un breintiau â'u cymdogion yn Lloegr, ar y llaw arall, er mwyn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

sicrhau unffurfiaeth o fewn y deyrnas, diddymodd y ddeddf “all and singular the sinister usages and customs” yng Nghymru oedd yn wahanol i'r rhai yn Lloegr. Ymhlith y “sinister usages” hyn oedd defnydd swyddogol o'r iaith Gymraeg, ac o hynny ymlaen:

- Saesneg oedd iaith llywodraeth, gweinyddiaeth, a chyfraith. Felly, er enghraifft, roedd yn rhaid i'r llysoedd gynnal eu gweithgareddau trwy gyfrwng yr iaith Saesneg.

- Roedd yn rhaid i holl swyddogion y wlad yng Nghymru fod yn rhugl yn y Saesneg.

Hefyd, wnaeth y ddeddf ddod â'r proses o gyfraith Saesneg yn cymryd lle cyfraith Gymreig i ben. O ganlyniad i hyn, diflannodd yr iaith a'r eirfa gysylltiedig.

Roedd effaith y “cymal iaith” yn arwyddocaol dros ben. Rydyn ni wedi gweld yn barod sut, ymhlith yr uchelwyr, doedd gan y Gymraeg dim statws. Nawr doedd gan y Gymraeg ddim statws swyddogol yn y llysoedd ac yn y blaen. Roedd yr iaith wedi dod yn eilradd. Yng ngeiriau'r hanesydd Gwyn Williams: “Peidiodd yr iaith Gymraeg â bod yn iaith swyddogol a bu'n rhaid iddi encilio i'r gegin.” Byddai dros bedwar cant pum deg o flynyddoedd tan i'r iaith gael statws swyddogol, ond stori ar gyfer y dyfodol ydy hynny.


Ond serch hyn i gyd, gwnaeth yr iaith oroesi. Yn y lle cyntaf, er y holl fygythiadau, roedd Cymru yn dal i fod yn wlad o gymunedau bach gwledig, gwasgaredig, a hunangynhwysol. Roedd ychydig iawn o drefi, ac roedd y rhain yn fach. Fel arfer doedd y rhan fwyaf o bobl ddim yn teithio y tu hwnt i'w plwyf eu hunain. O ganlyniad, wnaeth y Gymraeg barhau i fod yn iaith feunyddiol i fwyafrif llethol o'r boblogaeth.

Felly, am resymau o angenrheidrwydd a hwylustod, na chafodd cymal iaith y ddeddf eu gorfodi'n llwyr. Gan fod y rhan fwyaf o'r bobl yn uniaith Gymraeg, na fyddai'n bosib i'r llysoedd weithredu heb ddefnydd cyson o'r Gymraeg.

Hefyd, er bod canran yr uchelwyr oedd yn gallu siarad Saesneg yn cynyddu, gwnaethon nhw barhau i siarad y Gymraeg, achos roedd rhaid iddyn nhw. Wedi'r cyfan, roedden nhw'n dal i fyw yng Nghymru ac felly mewn amgylchedd oedd bron yn hollol Cymraeg. Gan

amlafr, roedd eu gwagedd a'u merched yn uniaith Gymraeg, ac wrth gwrs doedd eu merched ddim yn cael yr un addysg â'u meibion.

Ond, yn anad dim, daeth crefydd - a chyfieithiad y Beibl i'r Gymraeg - i achub yr iaith. O dan Harri VIII sefydlwyd Protestaniaeth yn grefydd swyddogol yn y wlad, ac roedd yn rhaid sicrhau i'r grefydd newydd hon gael ei derbyn dros y wlad i gyd. Yng Nghymru, felly, daeth unffurfiaeth grefyddol yn bwysicach nag unffurfiaeth ieithyddol, ac ym 1563 pasiodd efallai'r ddeddf bwysicaf yn hanes yr iaith Gymraeg: deddf cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. O ganlyniad i'r ddeddf hon, cyhoeddwyd Beibl William Morgan ym 1588 a roddodd safon ysblennydd i'r iaith ysgrifenedig, safon a oedd yn sylfaen gadarn i lenyddiaeth Gymraeg ac i weithgareddau addysgol yn y canrifoedd dilynol.



William Morgan

Hefyd, o hynny ymlaen, roedd pobl ledled Cymru'n clywed y Gymraeg ar ei gorau yn eu heglwysi plwyf, ac roedd hyn yn gyfraniad pwysig i sicrhau goroesiad yr iaith ac i sicrhau na chwalodd i nifer o dafodieithoedd digyswllt.

Wrth gwrs, gyda threigl amser, daeth y proses o Seisnigeiddio'r uchelwyr yn gyflawn, ac erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, am y tro cyntaf peidiodd y Gymraeg â bod yn brif iaith y dosbarth llywodraethol yng Nghymru. Ond hyd yn hyn, roedd y Gymraeg wedi gwrthsefyll y bygythiadau ac wedi goroesi, er bod mwy fyth o heriau i ddod yn y dyfodol.

Cofiwch y dyddiad 8fed Tachwedd 7.30

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Manylion ar dudalen 4

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Podlediad



Dathlu Dysgwyr

Un ffordd arbennig o dda i ddod i arfer â'r iaith yw gwranddo ar bobl eraill yn siarad ond dw i ddim yn dweud y dylech chi glustfeinio (to eavesdrop), na, bydd clustfeinio ddim yn beth da o gwbl. Mae ffordd arall o wrando ar bobl yn sgwrsio - pob math o bobl o bob math o leoedd. Yng nghanol mis Hydref mi wnaeth Radio Cymru ddathlu dysgwyr am wythnos gyfan. Roedd pob rhaglen yn cynnwys dysgwyr ac roedd llawer o sgysiau i'w glywed - sgysiau hawdd i chi ddeall. Ond roedd hynny wythnosau yn ôl ac mae'n rhy hwyr i mi ddweud wrthoch chi erbyn hyn! Wel na, dydy o ddim achos mae Radio Cymru yn creu podlediadau ac yn ei roi nhw ar eu gwefan i chi lawr lwytho i'ch cyfrifiadur neu eich ffôn.

Roedd y dysgwr Matt Fry yn siarad â phedwar o ddysgwyr mewn rhaglen ddiddorol dros ben. Enwau'r pedwar dysgwr oedd Joseph, Magda, Val a Matteus a dyma sut wnaeth y sgysiau ddatblygu:

- 1) Roedden nhw'n cyflwyno eu hunain, dweud o ble wnaethon nhw ddod a phryd wnaethon nhw symud i Gymru.
- 2) Beth oedd y rhesymau iddyn nhw benderfynu dysgu Cymraeg?
- 3) Oedden nhw wedi cael profiadau da neu ddrwg?
- 4) Oedden nhw wedi llwyddo i daro i mewn i'r gymuned a phrofi'r diwylliant?
- 5) Oedden nhw'n gwneud rhywbeth i helpu dysgwyr eraill?
- 6) Oedd ganddyn nhw unrhyw gyngor i ddysgwyr eraill?

- 7) Beth am gamgymeriadau? Y farn oedd - dim ots i jest mynd ymlaen i siarad a fesul tipyn mae'n dod yn well
- 8) Sut i annog mwy i ddysgu Cymraeg
- 9) Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae'r podlediad ar gael i chi lawr lwytho <https://www.bbc.co.uk/programmes/p07qtorb>

Gwrandewch ar y bodlediad yma, mae o'n hawdd deall a bydd yn agor y drws i lawer o bodlediadau tebyg. Gwrandewch lawer gwaith cyn mynd ymlaen i rai eraill a chewch bleser a hyder pan dach chi'n sgwrsio.

Dyma eirfa a fydd yn gymorth i chi:

Ymrwymiad - commitment
 Profiad - experience
 Cyngor - advice
 Yn y bôn - basically
 Arfordir Ifori - Ivory Coast
 Ceisiwr lloches - refugee
 Swyddfa Gartref - Home Office
 Yn syth - straight away
 Gwlad Pwyl - Poland
 Almaen - Germany
 Dim clem - no idea
 Dylanwad - influence
 Parhau - to carry on
 Athro gynradd - primary school teacher
 Cyfle - chance
 Datblygu - to develop
 Arbennig - special
 Ffoaduriaid - refugees
 Gwirfoddoli - to volunteer
 Gwaith â thâl - paid work
 Brawychus - alarming
 Dewr - brave
 Profi - to test
 Diwylliant - culture
 Dwli ar - to be keen on
 Cylch Sialc - The Chalk Circle
 Caneuon gwerin - folk songs
 Picia ar y maen - Welsh cakes
 Bara lawr - Larva bread
 Hybu - to promote
 Awyddus - keen
 Cyfarch - to greet
 Yr wyddor - the alphabet
 Annog - to urge
 Pwyslais - emphasis
 Adnabyddus - well known

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Teithiau Maes mis Tachwedd 2021

Y De a'r Canolbarth

6 Tachwedd Ceunant Clydach (Sir Fynwy)

Taith tua 5 milltir ger yr afon a thrwy goed a lonydd Cwm Clydach. Gwelwn adfeilion gwaith haearn Clydach. Dringo serth ar ddechrau'r daith.

Man cyfarfod: Parcio ar ochr y ffordd ger gwaith Haearn Clydach, gwaelod 'Lower Station Rd

Cod post agosaf NP7 0LY SO229133

Ena Morris: 07890 611737 01495 755940

13 Tachwedd Llandeilo a'r cyrion

Cylchdaith gymedrol tua 6 milltir yn cynnwys Castell a Pharc Dinefwr.

Man cyfarfod: Maes parcio ger gorsaf y rheilffordd SA19 6ND SN634226

Richard Davies: 07986 562584

20 Tachwedd Ardal Llandysul/Prengwyn

Taith gylch tua 5 milltir, gan fynd i gyfeiriad Prengwyn drwy gyfuniad o hewl a llwybrau - ychydig o ddringo (tua ¾ milltir) wrth fynd tuag at Prengwyn.

Man cyfarfod: Maes parcio pentref Llandysul (tal) - lawr y stryd o Westy'r Porth.

Cod Post SA44 4QS SN418405

Eileen Curry: 01559 362253

27 Tachwedd Y Fenni/Gofilon

Cylchdaith hamddenol tua 5 milltir dros gaeau ac ar hyd yr Afon, yn ôl ar lwybr y gamlas. Peth dringo rhesymol.

Man cyfarfod: Maes parcio Byfield Lane (dim tal), Stryd Tudur, Y Fenni. Dewch i'r cornel isaf ger y glwyd i Ddolydd y Castell.

Cod Post agosaf NP7 5AA SO296140

Olwen Jones 01873 857866

Gwynedd a Môn

6 Tachwedd Cylchdaith i Frynllidiart a Llynnoedd Cwm Silyn

(Cyfyngir i 25) Hanes Silyn Roberts a Mathonwy Hughes a hanesion lleol. Llwybrau, traciau, tir mynyddig mannau anwastad a chorsiog codi graddol 6m

Man cyfarfod: Maes parcio Ysgol Nebo LL54 6EE SH479505

Angharad Tomos 01286 882134

Hywel Madog 01766 530224 (Cofrestru gyda HMJ)

13 Tachwedd Ardal Dolwyddelan

Cylchdaith yn ardal Dolwyddelan Tirwedd Amrywiol ar lwybrau'r fro. Peth dringo. Gall fod yn wlyb mewn rhai mannau. 5-6 milltir

Man cyfarfod: Gorsaf Drenau Dolwyddelan LL25 0TJ SH737521

Elizabeth Jones 01492 640114

Iona Evans 01745 860660

20 Tachwedd Ardal Y Bala

Taith gylchynol yn ardal Y Bala. Hamddenol ar lannau'r Afon Tryweryn, Lanycil, glan Llyn Tegid a'r Ddyfrdwy Llwybrau a ffyrdd gwledig, croesi'r ffordd fawr. Hawdd ar y cyfan gydag ambell le serth, mwdlyd a llithrig wedi glaw. 4-5 milltir

Ma cyfarfod: Maes Parcio Yr Hwb, Ysgubor Isaf, Y Bala LL23 7NW SH929364

Mary Tomos 01678 540266 07765 711850

Ellis Davies 07769 717374

27 Tachwedd Rheilffordd Cwm Prysor

Taith i fyny'r Cwm i gyfeiriad y draphont. Llwybrau a gwely'r rheilffordd; gwlyb mewn mannau. 7m (posib cwtogi). **Man cyfarfod:** Capel Cwm Prysor (2m o'r A470 ar ffordd Bala) LL41 4TP SH737362

John Parry 01766 513869 07891 835576

Ken Robinson

Y Gogledd Dwyrain

Tach 6ed Llandudno a Bae Penrhyn

Nant y Gamar, Mynydd Pant a morloi Porth Dyniewaid. Anwastad mewn mannau, un ddringfa serth. Tua 6m. Ger Gorsaf Bad Achub Llandudno, tua pen dwyreiniol y promenâd. SH800821

Dilys ag Aneurin Phillips 01492 650003

Tach 13eg Ardal Llaneurgain

Taith hamddenol, goedwigol, rhan o Glawdd Wat ag ardal Gwysane. Tua 5m. Maes parcio ger y groesffordd a'r goleuadau. SJ245684

Ray Humphreys 01244 529915

Tach 20fed Ardal Berwyn, Llangollen

Ar lonydd tawel ochr ddeheuol yr afon, peth dringo i ddechre yna 'nôl ar hyd y gamlas. Tua 5m. Maes parcio ar ochr y lôn tu ôl i Westy'r Chain Bridge, i fyny o'r bont. SJ198433

Gwenda Lloyd 01490 412389

a Rhian Hâf Jones 01978 351593

Don't be a Martian!

This little story is written in English because it makes a very important point and understanding it properly could give you a great boost in your journey of learning Welsh. So, here it is:

There was this Martian and to him life on Mars was not as satisfying as it used to be. He was missing the greenness of his planet, for some reason Its green was fading into a drab grey. Things would only get worse but, luckily, Martians have, for a number of millennia, been travelling to various parts of the universe. Some of us, here on Earth, have long suspected this but nobody has listened but that's another story and nothing at all to do with the Martian's dilemma. During his travels he had discovered that part of Wales which is a triangle bounded by Tregaron in the north, Llandeilo in the west and Beulah in the east. This is sometimes known as the Welsh

Triangle and is similar to the Bermuda Triangle in that some people who enter are never seen again. You don't believe me? So how do you explain the existence of Soar y Mynydd Chapel right on the northern end of Llyn Brianne with no other inhabited buildings to be seen. A whole congregation magicked away!

Anyway the Martian rather liked this area and decided to try and settle there. He had to make preparations, of course, so he downloaded the app 'Say Something in Welsh' and in no time he was feeling very fluent. He boarded the next spaceship, landed and settled near Rhandirmwyn where he had come across a convenient cave. He thought everything would be fine from now on, he had had a few conversations with farmers and lumberjacks and they all seemed to understand him, although he had the feeling that the lumberjacks didn't much care.

What he did realise was that his scope for conversation was a touch limited. You see he had no real knowledge of the history and culture of Wales and he felt this was holding him back. He went to Aberystwyth and bought John Davies' book, The History of Wales, but was daunted by the 662 pages of 10pt print. He went back to the shop and asked if there was a similar book that was much easier to read, one with colourful pictures and shiny pages. Something that he could manage to read in bits over time and, one that would give him the framework of the people and events in Wales' history. One that would trigger his enthusiasm for history in general. A book that would give him the background to all that is important in Wales.

The shop assistant, after digesting his whole requirements, said "I've got the very book. It's just been published it's called 'Hanes yn y Tir' and the author is Elin Jones. It's got a hard cover and 215 pages containing all that you need to know and it's very readable. You'll enjoy it and you'll improve your vocabulary at the same time."

"Can I see a copy please?" he asks. She hands him a copy and he admires the pages and is impressed with all the different stories in it, none of them too long, none difficult to read. He looks at the price on the back - £16.50, and hesitates and then realises that this is a book that

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

imparts knowledge, and how can you put a price on knowledge. This is a book to really enjoy, enjoyment is worth a great deal. "I'll have it!" he says, hands his card over and the deal is done.

A few weeks later and after reading a bit every night before blowing out his candle he now has a growing understanding about what makes Wales special. He sees things in the landscape and he understands them.

Christmas is on the way so why not put a few hints about what you would like or why not spoil yourself. Go to your local Welsh shop and grab yourself a copy!

Hanes yn y Tir

gan Elin Jones

You won't regret it!

As you know the Eisteddfod is in Tregaron next year, hopefully. Make sure you look out for the Martian, he's sure to be there!

Cael hwyl ar y clo

gan Dr Elin Jones



Peth hyfryd iawn yw gwireddu breuddwyd oes, a ches i gyfle i wneud hynny yn ystod y cyfnod clo. Cefais lonydd i fwrw ati i ysgrifennu'r llyfr ar hanes Cymru roedd gen i yn yr arfaeth ers blynnyddoedd. Cefais symbyliad i ddechrau ar y gwaith pan sylweddolais doedd dim un llyfr ar y farchnad fyddai'n cwrdd ag awydd fy ffrind ifanc gorau Josephine (9 oed) am lyfr ar hanes Cymru

i gyd – gyda draig ar y clawr a sylw haeddiannol i fenywod ar ei dudalennau.

Roeddwn i'n ddigon ffodus i gael cyfle i ofyn i'r Arch-dderwydd – a chyhoeddwr – Myrddin ap Dafydd a fyddai diddordeb gan Wasg Carreg Gwalch mewn cyhoeddi'r llyfr. Roedd ei frwdfrydedd dros y syniad yn galonogol – ac yn hwb arall ymlaen, wrth gwrs.

Felly roedd yn rhaid rhoi'r gorau i siarad, agor y cluniadur a dechrau arni. Roedd y cynllun gen i ers blynnyddoedd – dilyn hanes Cymru trwy edrych ar ein cynefin, y tirwedd o'n cwrdd a ffurfiwyd gan ein hanes.

Campwaith y diweddar Dr John Davies fyddai sail y llyfr, fel bod modd i'r darlennydd (neu riant y darlennydd) droi at ei Hanes Cymru ef i gael mwy o fanylion. Mae sawl lyfr da arall ar hanes Cymru hefyd, wrth gwrs, ond mawr yw – ac oedd – fy mharch tuag at John, a'i allu i gwmpasu cymaint o wybodaeth o fewn clawr un llyfr. Roedd y llyfr ei hun wrth fy mhenelin wrth i fi ysgrifennu, ac ynddo gefais ateb i bob cwestiwn oedd gen i, beth bynnag.

Wrth weithio ar y cwricwlwm hanes, ac wrth reoleiddio'r cymwysterau yn y pwnc, sylwais i mor bytiog oedd yr hanes a astudir mewn ysgolion. Er bod ymgais i gryfhau ymwybyddiaeth plant o dreigl amser, a'r gwahaniaethau sydd rhwng cyfnodau hanesyddol, trwy gyflwyno astudiaethau o un thema dros ystod hir o amser, dyw hynny ddim yn rhoi darlun cyflawn iddynt o unrhyw gyfnod.

Roeddwn yn ymwybodol iawn hefyd fod tuedd i ffocysu ar rai bynciau mewn hanes a bod rhai eraill yn cael eu hanghofio, er eu bod llawn mor bwysig. Dechreuwyd datblygu'r cwricwlwm cenedlaethol ddeugain mlynedd yn ôl, a bu'n rhaid brwydro'n galed i gael maes llafur gwahanol i Gymru mewn rhai pynciau – gan gynnwys hanes. Mae blaenoriaethau hanes Lloegr wedi cael llawer o ddylanwad ar gynnwys y cwricwlwm hanes yng Nghymru, serch hynny. Mae diwylliant poblogaidd hefyd yn ein hatgoffa'n gyson am bwysigrwydd y cestyll, agweddau ar hanes y Tuduriaid, y chwyldro diwydiannol ac, wrth gwrs, yr Ail Ryfel Byd.

Anodd iawn felly yw rhoi sylw haeddiannol i gyfnod a digwyddiadau sy'n wahanol eu pwysigrwydd yng Nghymru. Mae rhai o'r rhain yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

allweddol i hanes Cymru, megis y cyfnod rhwng diwedd ymerodraeth Rufain a dyfodiad y Normaniaid. Dyma “Oes y Saint” i ni yng Nghymru, ac mae llawer o’n chwedlau yn ogystal ag enwau’n trefi a’n pentrefi yn dangos ei bwysigrwydd yn ein hanes. Dyma’r cyfnod hefyd pan ddatblygodd ein hiaith a’r hen deyrnasoedd sydd wedi rhoi eu henwau i rannau o Gymru hyd heddiw. A dyma’r cyfnod pan godwyd y Clawdd sy’n dal yn ffin rhyngom ni a Lloegr. Dyma’r cyfnod pan ffurfiwyd Cymru fel gwlad.

A beth am Glyn Dŵr? Un o blith nifer o wrthryfelwyr y 15fed ganrif ydyw yn hanes Lloegr – ond arwr oesol a chynllunydd Cymru annibynnol yw Glyn Dŵr i ni sy’n byw yr ochr hon i Glawdd Offa. A datblygiad Methodistiaeth ac addysg yn y 18fed ganrif? Mae angen gwybod am y daeargryn crefyddol, y diwygiadau fu’n teithio fel tân gwyllt trwy Gymru, i ddeall arwyddocâd y capeli anferth sy’n dadfeilio ymhob tref a phentref heddiw.

Ond ar ben hynny, roeddwn yn aml yn gweld plant yn gwneud gwaith arbennig o dda ar eu milltir sgwâr, neu ar ryw agwedd o hanes lleol, ond heb gael unrhyw gyd-destun ehangach iddo. Mae’r cwricwlwm newydd sy’n cael ei gyflwyno nawr yn rhoi sylw mawr i gynefin y disgyblion, a da o beth yw hynny. Ond beth am roi’r cynefin mewn cyd-destun Cymru gyfan?

Felly clatsh bant oedd hi am fisoedd. Anfon drafft o’r penodau cyntaf draw at Josephine a chael sêl ei bendith arnynt – a chynllun ar gyfer y clawr hefyd. Ond roedd y cymorthdal a dderbyniodd y wasg gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am banel o athrawon profiadol i arolygu’r gwaith, ac am dreialu penodau o’r llyfr mewn ysgolion. Rhaid oedd i bob un ohonyn nhw fod yn fodlon: nid oedd geirda Josephine yn ddigon, yn anffodus.

Ond wedi cryn ysgrifennu ac ail-ysgrifennu ac ail-ail-ysgrifennu, roedd testun derbynol gennym. Ac yn y cyfamser, tra ‘mod i wedi bod yn ffusto allweddau’r cluniadur, roedd llawer o bobl eraill wedi bod yn gweithio ar y llyfr hefyd - arlunydd, dylunydd, ymchwilydd lluniau, golygyddion a llawer o rai eraill, rwy’n siwr. Efallai taw fi sydd pia’r rhan fwyaf o’r geiriau yn y llyfr, ond nid fi sy’n gyfrifol am y golwg hyfryd sydd arno, y papur da, y lluniau lliwgar ac effeithiol, y diwyg atyniadol, yr indecs cywir a

chynhwysfawr, y mapiau gwych... Roedd derbyn y llyfr gorffendig yn brofiad gwefreiddiol a bythgofiadwy. Gwelais lyfr hyfryd yn ogystal â breuddwyd wedi ei wireddu mewn bocs cardfwrdd ar ford y gegin!

Pos Val

Atebion

Ar Draws

- 1) Nofel
- 3) Hyd
- 5) Seiliad
- 7) Mewn
- 8) Oren
- 10) Dewiswr
- 12) Nôl
- 13) Sgwrs

I Lawr

- 1) Nes
- 2) Lein
- 3) Hyderus
- 4) Dwsin
- 6) Iawndal
- 7) Moron
- 9) Owsn
- 11) Ras

Geirfa

Gerallt Gymro

Ymdrechu - to strive
 Canllaw - guideline
 Sbardun - trigger
 Dinas Sanctaidd - the Holy City
 Ergyd mawr - a huge blow
 Gwledydd Cred - Christian countries
 Croesgad - crusade
 Saethwr - archer
 Archesgob - Archbishop
 Dylanwadol - influential
 Tywysogaeth - principality
 Henffordd - Hereford
 Prif Ustus - Chief Justice
 Torf - crowd
 Rhuthro - to rush
 Gwirfoddoli - to volunteer
 Rhaid ei gael - a ‘must have’
 Caer - Chester
 Cyfnither - cousin (female)
 Esgymuno - to excommunicate
 Troseddwr - criminal

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Llofrydd - murderer

Lleidr - thief

Carcharor - prisoner

Dan glo - under lock and key

Maddeuant - forgiveness

Pechodau - sins

Tocyn dosbarth cyntaf - first class ticket

Nef (nefoedd) - heaven (heavens)

Farwel i Pilchard

Pentref myfyrwyr - student village

Ffwr trilliw - three coloured fur

Coesgam - bent legged

Cloff - lame

Wedi cwpla - finished

GIG - Gwasanaeth Iechid Gymru

Goglais - to tickle

Cyfarwydd - familiar

Di-ddal - free of charge

Holl ogoniant - full glory

Cath gymunedol - community cat

Trigolion gerllaw - nearby residents

Ymweliad - visit

Cyntedd - hall (of a building)

Dim llai! - no less!

Cymwynaswr - benefactor

Ynghyd â - as well as

Dim yn fêl i gyd - not all milk and honey

Ymosod ar - to attack

Milfeddyg - vet

Y bont enfys - the rainbow bridge

Coffau - to commemorate

Cymru mewn 100 Gwrthrych

Gwrthrych - object

Ffeithiol-Creadigol - factual-fictional

Cefndir - background

Llawfwyll - hand axe

Mesurau arloesol - pioneering measures

Angau - death

Murlun - mural

Dyddio - to date

Chwyldro - revolution

Rhybuddio - to warn

Cyfoethog - wealthy

Anhysbys - unknown

Bedyddio - to baptise

Arlunydd - artist

Cyfansoddiad - composition

Manylion - details

Hanes yr Iaith

Disgynnydd - descendant

Cael ei hystyried - was considered

Cyfrwng israddol - inferior medium

Gweinyddiaeth - administration

Uchelwyr - landowners

Dynwared - to imitate

Mabwysiadu - to adopt

Cyfenwau - surnames

Cynyddu - to increase

O ganlyniad - as a result (of)

Gwasg argraffu - printing press

Cylchrediad - circulation

Yn bennaf oll - more than anything

Tanseilio - to undermine

Deddf 1536 - the Act of (Union) 1536

Unffurfiaeth - uniformity

Diddymu - to annul

Cymal - clause

Arwyddocaol - significant

Encilio - to retreat

Serch hyn i gyd - in spite of all this

Bygythiad - threat

Gwasgaredig - scattered

Hunangynhwysol - self contained

Plwyf - parish

Crefydd - religion

Cyfieithu - to translate

Goroesiad - survival

Cael hwyl ar y Clo

Gwireddu breuddwyd - to fulfil a dream

Yr arfaeth - in the intent

Symbyliad - stimulus

Awydd - desire

Haeddiannol - deserved

Cyhoeddwr - Publisher

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Brwdfrydedd – eagerness

Calonogol -uplifting

Cluniadur – laptop

Cynllun – plan

Cynefin – habitat

Tirwedd – landscape

Campwaith – masterpiece

Sail – basis

Parch – respect

Cwmpasu – to encompass

O fewn clawr – within the cover

Rheoleiddio – to regulate

Cymwysterau – qualifications

Pytiog – bitty

Treigl amser – the passage of time

Cyflwyno – to present

Astudiaethau – studies

Thema – theme

Darlun cyflawn – complete picture

Tuedd – tendency

Blaenoriaeth – preference

Dylanwad – influence

Cynnwys – contents

Diwylliant – culture

Agwedd – attitude

Chwyldro diwydiannol – industrial revolution

Haeddiannol – deserved

Allweddol – fundamental

Deyrnas – kingdom

Gwrthryfelwr – rebel

Arwr oesol – lasting hero

Daeargryn crefyddol – religious earthquake

Diwygiad – reform

Dadfeilio – to dilapidate

Cyd-destun – context

Ehangach – wider

Clatsh bant – to forge ahead

Cymorthdal – Financial Support

Arolygu – to supervise

Arlunydd – artist

Dylunydd – illustrator

Ymchwilydd lluniau - picture researcher

Golygydd – editor

Diwyg atyniadol – attractive appearance

Gwefreiddiol – thrilling

Bythgofiadwy – unforgettable